# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 29AIN TACHWEDD, 2016**

Lleoliad

**Hen Eglwys y Santes Fair, Tremadog**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD: 21.11.16)

## AELODAETH / MEMBERSHIP

### AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS

Y Cynghorydd/Cllr Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

### CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS

Mr Iwan Trefor Jones

### PENNAETH CYLLID

Dafydd Edwards

### PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

### PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mr Rhys Williams - Ysgol Cymerau
Mrs Menna Wynne Pugh - Ysgol Penybryn
Mr Gwyn Howells – Ysgol y Gelli
Mr Trystan Larsen - Ysgol Rhostryfan
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Mrs Kerry Parry - Ysgol Ganllwyd

### UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

### LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS

**Arfon**
Mr Dafydd Meirion Roberts, Ysgol Brynrefail,
Mr Godfrey Northam - Ysgol Llanllechid

**Meirionnydd**
Disgwyl enwebiad fel olynydd i Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr
Mrs Llinos Lloyd, Corff Cysgodol Dalgylch y Gader,

**Dwyfor**
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Cyng. Michael Sol Owen, Ysgol Glan y Mor,

### ESGOBAETH / DIOCESE

Disgwyl enwebiad

### YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS

**(Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination)**

### YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar

**Sylwedyddion / Observers :**
Mr Arwyn Lloyd Thomas, Pennaeth Addysg / Head of Education Service
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg / Senior Education Resources' Manager
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate
Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. COFNODION 5 - 9

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2016.

(Copi'n amgaeedig)

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

## 5. YSGOLION GYDA DIFFYG BALANSAU 10 - 11

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

## 6. YSGOLION GYDA GWARGED BALANSAU 12 - 14

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

## 7. METHODOLEG CYLLIDO YSGOL DDILYNOL 15 - 20

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

## 8. CYTUNDEBAU LEGEL GWASANAETH 2017/18 I 2019/20

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod.

## 9. PENNU DYDDIADAU AR GYFER CYFARFODYDD

- 7 Chwefror 2017
- ? Mehefin / Gorffennaf 2017
- ? Tachwedd 2017

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Hen Eglwys y Santes Fair, Tremadog,**
**ar 4 Gorffennaf 2016 o 9.15 a.m. hyd 10.30 a.m.**

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Penaethiaid Ysgolion :** Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn)

**Undebau Athrawon:** Neil Foden (Ysgol Friars)

**Llywodraethwyr:** Godfrey Northam (Ysgol Llanllechid)
Gwilym Jones (Ysgol Borth-y-gest)

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg)
Hefin Owen (Rheolwr Cyllid)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau: Cyng. Michael Sol Owen (Ysgol Glan y Môr), Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn), Gwyn Howells (Ysgol y Gelli), Rhys Williams (Ysgol Cymerau), Geraint Evans (Ysgol Edern), Andrew Roberts (Ysgol y Berwyn), Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Llinos Lloyd (Corff Cysgodol Dalgylch y Gader), Dafydd Meirion Roberts (Ysgol Brynrefail), Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid),**

**Aelodaeth:** (1) Derbyniwyd e-bost gan Geraint Evans (Ysgol Edern) yn nodi ei fwriad i ymddiswyddo fel aelod o'r Fforwm diwedd y tymor ac y byddai'r GYDCA yn enwebu olynydd iddo yn eu cyfarfod nesaf.

(ii) Yn yr un modd roedd sedd wag yn dilyn ymddeoliad Eifion Jones (Ysgol Brynrefail) ac fe nodwyd bod Dewi Lake, Ysgol y Moelwyn, wedi ei enwebu i wasanaethu ar y Fforwm ond nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**(iii) Nodwyd yr angen i gysylltu gyda'r canlynol ynglŷn ag enwebiadau i wasanaethu ar y Fforwm:**

Yr Esgobaeth
Ysgolion Eglwys

(2) Cymerodd y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg, y cyfle i ddiolch i'r Penaethiaid uchod am eu hymroddiad a'u cyfraniad i waith y Fforwm ac ategwyd y diolchiadau hefyd i holl Aelodau'r Fforwm dros y blynyddoedd diwethaf mewn cyfnod anodd iawn o ran toriadau ariannol a wyneba'r Cyngor.

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol Mr Godfrey Northam yn Gadeirydd y Fforwm am y flwyddyn 2016/17.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Gareth Thomas yn Is-gadeirydd i'r Fforwm am y flwyddyn 2016/17.**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

4. **<u>COFNODION</u>**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2016 fel rhai cywir.

5. **CYFRIFON TERFYNOL YSGOLION BLWYDDYN GYLLIDOL 2015/16**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod a thywyswyd yr Aelodau drwy ei gynnwys gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg gan nodi yn gyffredinol bod balansau holl ysgolion Gwynedd wedi gostwng £159,010 i £3,336,570 yn ystod 2015/16 sy'n cyfateb i 4.66% o'u dyraniad terfynol.

Ymhelaethwyd fel a ganlyn bod:

- 16 ysgol gyda diffyg ariannol gwerth £447,692
- 11 ysgol gynradd gyda chyfanswm diffyg £96,263
- 4 ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg £297,238
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg o £54,191

Nodwyd bod balansau'r ysgolion cynradd wedi lleihau am y tro cyntaf ers 2010. Mynegwyd pryder bod balansau rhai ysgolion yn parhau yn uchel er bod cynllun cyfarwyddo wedi ei fabwysiadu o ran defnydd balansau ymddengys bod 14 ysgol gynradd a 5 ysgol uwchradd gyda balansau dros y trothwy £50,000 (cynradd) neu £100,000 (uwchradd). Fodd bynnag, roedd trefn i roi sylw i'r mater hwn lle gwelir patrwm cyson o gadw balansau, gyda thrafodaeth yn mynd rhagddo gydag un ysgol benodol. Yn 2016/17 lle bydd y toriadau ariannol yn taro y disgwylir i'r balansau leihau eto.

O safbwynt ysgolion mewn diffyg, awgrymwyd y dylid derbyn adroddiad i gyfarfod nesaf y Fforwm yn amlinellu'r patrwm o dueddiadau a chamau dros y blynyddoedd ar ysgolion unigol.

Yng nghyd-destun balansau ysgolion, mynegwyd pryder ynglyn a'r ysgolion hynny sydd yn cadw balansau ac yn derbyn gwarchodaeth ychwanegol.

Mewn ymateb i'r uchod, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg bod gan yr awdurdod drefn o ganfod beth yw cynlluniau ysgolion o ran gwario balansau a bod gan ysgolion gynlluniau eithaf rhesymol a theg. Yr

hyn sy'n anodd ydoedd pan nad yw ysgolion yn gwireddu'r cynlluniau hynny a'i fod yn anodd i'r awdurdod eu herio, a'u bod o ganlyniad erbyn diwedd y flwyddyn ganlynol yn yr un sefyllfa o ran maint y balansau.

**Penderfynwyd: (i) Cymeradwyo bod yr Adran Addysg a'r Adran Gyllid:**

**(a) yn cydweithio'n agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**
**(b) yn parhau i fonitro cyllidebau ysgolion**

**(ii) Gofyn i'r Rheolwr Cyllid gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Fforwm yn amlinellu:**

**(a) tueddiadau a phatrwm dros y blynyddoedd o ysgolion unigol sydd mewn diffyg ariannol.**
**(b) Ychwanegiad i'r adroddiad uchod yn amlygu'r ysgolion unigol hynny sydd gyda gwarged o'u balansau.**

**6. GRANTIAU YSGOLION 2016/17**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg ynglyn a Grantiau Ysgolion 2016/17 a thywyswyd y Fforwm drwy'r cynnwys gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg.

Cyfeiriwyd at y grantiau yn unigol gan nodi:

Grant Amddifadedd Disgyblion - £2,203,350 - grant ar sail nifer disgyblion gyda hawl i ginio am ddim er mwyn gwella safonau llythrennedd, rhifedd a hefyd i gau'r bwlch rhwng plant difreintiedig a'u cyfoedion.

Grant Gwella Addysg - £4,171,818 – grant i godi safonau addysgu.

Grant 6ed Dosbarth (£3,277,221) - O'r 14 ysgol uwchradd, 7 yn darparu cyrsiau 6ed dosbarth gyda'r grant uchod yn cael ei ddyrannu ar sail cyfuniad o nifer disgyblion / nifer cyrsiau, amddifadedd, gwasgaredd ac addysg cyfrwng Gymraeg.

Cadarnhawyd nad oedd y grantiau uchod yn ddibynnol ar arian Ewrop.

Ychwanegodd y Rheolwr Cyllid o safbwynt y GGA mai un swm o arian a dderbynnir yn rhanbarthol ac yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar ystadegau.

Cyfnod Sylfaen : fformiwla penodol yn bennaf ar sail disgyblion cyfnod sylfaen gyda gofyn i weithio tuag at cymhareb o 1:8 oedolyn i ddisgyblion yn y blynyddoedd meithrin a derbyn a chymharbe o 1:15 yn blynyddoedd 1 a 2. Nodwyd bod gweddill y GGA yn cael ei ddyrannu ar sail 80% nifer disgyblion a 20% ar sail niferoedd cinio am ddim.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 7. POLISI DYRANIAD YCHWANEGOL GWARCHODAETH LLEIAFSWM STAFFIO

Atgoffwyd y Fforwm o'r newid ym mholisi Dyraniad Ychwanegol Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio er mwyn lleihau'r dyraniad gwarchodaeth gyfwerth â'r elfen balansau dros 5% o'r flwyddyn olaf a gyhoeddwyd (balansau ar ddiwedd 2014-15 mewn perthynas â dyraniad gwarchodaeth 2016-17).

Llythyrwyd â'r ysgolion a oedd â gwarged dros drothwy'r balansau gan eu gwahodd i gyflwyno cais i beidio lleihau'r warchodaeth lleiafswm staffio ar gyfer 2016/17. Erbyn dydddiad y Fforwm derbyniwyd 11 cais gydag un cais hwyr sydd heb eu prosesu ac allan o'r 11 bydd 5 o'r ysgolion yn derbyn y warchodaeth gyfan yn ôl gyda rhan fwyaf o'r arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer staffio (sef Pennaeth/ Athro ymhob ysgol).

Mewn ymateb i'r uchod, amlygwyd anfodlonrwydd gan yr Aelod Cabinet Adnoddau nad oedd y sefyllfa yn dderbyniol o ystyried bod holl Wasanaethau'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio â'u cyllidebau dynodedig. Ychwanegodd y dylid bod yn gadarn gyda'r ysgolion ac y disgwylir gweld gwelliant sylweddol ym malansau'r ysgolion flwyddyn nesaf. Nodwyd yr angen i bob dalgylch wynebu realiti'r sefyllfa gyda'r angen i brysuro ymlaen gyda threfniadaeth ysgolion.

Ategodd yr Aelod Cabinet Addysg yr un pryder ac anfodlonrwydd gyda'r sefyllfa a'i fod yn anodd iddo mewn cyfarfodydd o'r Cabinet ddadlau achos y Gwasanaeth Ysgolion o safbwynt toriadau ariannol o ystyried bod swm eithaf sylweddol gan rhai ysgolion mewn balansau. Awgrymwyd i'r Aelod Cabinet fynegi anfodlonrwydd y Fforwm wrth Benaethiaid mewn cyfarfod o'r GYDCA ynglyn a defnydd o falansau ac apelio arnynt i'w defnyddio er mwyn lliniaru'r sefyllfa ar gyfer flwyddyn nesaf.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Cymeradwyo i'r Aelod Cabinet Addysg gyfleu pryder y Fforwm ynglyn a defnydd o falansau ac i'w hannog i'w lleihau erbyn y flwyddyn nesaf.**

## 8. CYTUNDEB LLUNGOPÏO I YSGOLION

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg bod gan y Cyngor gytundeb les ar gyfer llungopïo gyda Konica Minolta ac awgrymwyd y gall ysgolion fod yn rhan o drefniadau canolog y Cyngor. Anogir Penaethiaid i gysylltu gyda Judith Ann Williams, Arweinydd Cynorthwyol Gwasanaeth Cefnogol, i drafod y manylion. Fodd bynnag, dylai ysgolion fod yn wyliadwrus o delerau'r cytundeb presennol sydd ganddynt rhag ofn y byddai costau o dynnu allan o unrhyw gytundeb yn rhy fawr i gyfiawnhau newid cytundeb am y tro.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â pha mor gystadleuol yw cytundeb Konica Minolta, argymhellwyd i Benaethiaid holi ynglŷn â thelerau'r Cyngor a phwyso a mesur manteision / anfanteision i fod yn rhan o gytundeb canolog.

Eglurwyd ymhellach na fyddai ysgolion yn derbyn anfoneb yn unigol, yn hytrach byddai'r canol yn derbyn un anfoneb, a sicrhawyd nad oedd y Cyngor yn gwneud elw o'r cytundeb.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**9. DYDDIADAU AR GYFER CYFARFODYDD NESAF**

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau ymgynghori gyda'r Cadeirydd / swyddogion perthnasol ar gyfer pennu dyddiadau i'r cyfarfodydd nesaf tua chanol mis Tachwedd 2016, Chwefror 2017 a diwedd Mehefin 2017.**

**<u>CADEIRYDD</u>**

Eitem 5

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 29 Tachwedd 2016 |
| **TEITL** | Ysgolion gyda diffyg balansau |
| **PWRPAS** | Amlinellu ysgolion gyda diffyg balansau ar gais y Fforwm |
| **ARGYMHELLIAD** | Ystyried yr adroddiad |
| **AWDUR** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

## 1 Cefndir

1.1 Amgaeaf atodiad sy'n amlygu patrwm diffyg balansau dros y cyfnod tair blynedd diwethaf, yn unol â chais gan y Fforwm Cyllid Ysgolion yn ei gyfarfod 4 Gorffennaf 2016, ymhellach i'r cofnod isod -

*"5 (ii) Gofyn i'r Rheolwr Cyllid gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Fforwm yn amlinellu:*

*(a) tueddiadau a phatrwm dros y blynyddoedd o ysgolion unigol sydd mewn diffyg ariannol."*

1.2 Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol yw cyllideb yr ysgol gydag un o'r amodau ynghlwm i'r gyllideb yw ni ddylid sefydlu cyllideb ddiffygiol.

## 2. Prif Bwyntiau'r Atodiad

2.1 Cyfanswm nifer yr ysgolion gyda diffyg wedi cynyddu.
2.2 Cyfanswm gwerth y diffyg ariannol wedi cynyddu.
2.3 20 Ysgol wedi bod gyda diffyg ar ryw bwynt yn ystod y cyfnod.
2.4 4 Ysgol wedi bod gyda diffyg ar ddiwedd pob blwyddyn o'r cyfnod (wedi'i amlygu'n felyn).

# Ysgolion gyda diffyg 2013/14, 2015/15 ac 2015/16

| | | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2016 | Balansau 31/03/2016 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2015 | Balansau 31/03/2015 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2014 | Balansau 31/03/2014 fel % o'r Dyraniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 1 | 2006 | Llanrug | -£38,345 | -4.63% | -£52,759 | -6.85% | -£14,200 | -1.91% |
| | | 2 | 2048 | Bro Plennydd | -£2,879 | -1.00% | -£11,430 | -4.33% | £1,886 | 0.70% |
| | | 3 | 2069 | Llanllechid | -£4,707 | -0.58% | -£20,358 | -2.53% | £44,784 | 5.35% |
| * | | 4 | 2078 | Baladeulyn | -£2,461 | -1.50% | £828 | 0.46% | £196 | 0.11% |
| | | 5 | 2093 | Pentreuchaf | £605 | 0.15% | -£9,820 | -2.80% | £3,773 | 1.19% |
| * | | 6 | 2097 | Rhiwlas | -£778 | -0.45% | £4,945 | 2.58% | £902 | 0.46% |
| | | 7 | 2098 | Rhosgadfan | -£5,568 | -2.83% | -£1,409 | -0.74% | £4,589 | 2.34% |
| | 2 | 8 | 2099 | Rhostryfan | -£9,030 | -3.28% | -£842 | -0.32% | -£3,863 | -1.61% |
| | 3 | 9 | 2119 | Yr Hendre | -£24,470 | -1.84% | -£8,329 | -0.62% | -£21,521 | -1.58% |
| | | 10 | 2127 | Y Felinheli | £2,940 | 0.60% | -£5,949 | -1.14% | £14,287 | 2.86% |
| * | | 11 | 2216 | Friog | -£1,034 | -0.56% | -£780 | -0.45% | £6,888 | 4.07% |
| | | 12 | 2228 | Craig y Deryn | -£4,088 | -1.00% | £54 | 0.01% | -£2,269 | -0.91% |
| | | 13 | 3305 | Beuno Sant | -£2,904 | -1.25% | £6,723 | 3.02% | £40,033 | 16.57% |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 4003 | Botwnnog | -£37,815 | -2.05% | -£29,434 | -1.52% | £67,770 | 3.30% |
| | | 2 | 4004 | Brynrefail | £23,042 | 0.71% | -£25,871 | -0.79% | £91,127 | 2.69% |
| | | 3 | 4030 | Y Gader | £235,705 | 11.02% | £83,514 | 3.95% | -£77,320 | -3.93% |
| * | | 4 | 4032 | Tywyn | -£59,375 | -4.22% | -£17,943 | -1.21% | £404 | 0.03% |
| * | 4 | 5 | 4033 | Y Berwyn | -£118,686 | -7.28% | -£94,128 | -5.67% | -£90,156 | -4.93% |
| | | 6 | 4039 | Syr Hugh Owen | -£81,362 | -2.04% | -£23,366 | -0.59% | £61,119 | 1.52% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3502 | Pendalar | -£54,191 | -3.40% | -£25,454 | -1.77% | £21,637 | 1.54% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM DIFFYG YN UNIG | -£447,693 | 16 | -£327,873 | 15 | -£209,328 | 6 |

* ysgolion yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio yn 2015/16

Eitem 6

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 29 Tachwedd 2016 |
| **TEITL** | Ysgolion gyda gwarged balansau |
| **PWRPAS** | Amlinellu ysgolion gyda gwarged balansau ar gais y Fforwm |
| **ARGYMHELLIAD** | Ystyried yr adroddiad |
| **AWDUR** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**1 Cefndir**

1.1 Amgaeaf atodiad sy'n amlygu patrwm gwarged balansau dros y cyfnod tair blynedd diwethaf, yn unol â chais gan y Fforwm Cyllid Ysgolion yn ei gyfarfod 4 Gorffennaf 2016, ymhellach i'r cofnod isod

***"5 (ii) Gofyn i'r Rheolwr Cyllid gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Fforwm yn amlinellu:***
***(b) ........amlygu'r ysgolion unigol hynny sydd gyda gwarged o'u balansau."***

1.2 Ers cychwyn cyfundrefn 'Rheolaeth Leol Ysgolion' yn ôl yn 1988, yr arweiniad cyffredinol yw byddai cadw gwarged o hyd at 5% yn dderbyniol gan amlaf. Felly sefydlwyd yr atodiad ar sail ysgolion oedd gyda gwarged o dros 5% ar ddiwedd unrhyw un o'r cyfnodau.

1.3 Er hynny, os yw ysgol wedi cynllunio yn fwriadol ar gyfer buddsoddiad ariannol sydd i ddigwydd yn y dyfodol agos, byddai cadw gwarged o dros 5% yn dderbyniol dan yr amgylchiadau hynny yn y tymor byr.

**2. Prif Bwyntiau'r Atodiad**

2.1 Cyfanswm nifer ysgolion gyda gwarged dros 5% wedi lleihau
2.2 Cyfanswm ariannol yr elfen gwarged dros 5% wedi cynyddu
2.3 87 Ysgol wedi bod gyda gwarged dros 5% ar ryw bwynt yn ystod y cyfnod
2.4 50 Ysgol wedi bod gyda gwarged dros 5% ar ddiwedd pob blwyddyn o'r cyfnod (wedi'i amlygu'n felyn).

# Ysgolion gyda balansau dros 5% 2013/14, 2014/15 a 2015/16

| | | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2016 | Balansau 31/03/2016 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2015 | Balansau 31/03/2015 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2014 | Balansau 31/03/2014 fel % o'r Dyraniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | £51,816 | 8.83% | £39,666 | 6.53% | £30,062 | 5.21% |
| | | 2 | 2004 | Nefyn | £10,229 | 2.17% | £53,238 | 11.34% | £42,759 | 9.63% |
| | | 3 | 2008 | Abererch | £12,052 | 4.79% | £13,159 | 5.65% | £12,698 | 5.79% |
| * | 2 | 4 | 2009 | Abersoch | £14,141 | 9.50% | £16,787 | 12.81% | £16,145 | 12.09% |
| * | 3 | 5 | 2010 | Beddgelert | £9,137 | 5.54% | £12,369 | 7.37% | £10,842 | 6.36% |
| | | 6 | 2011 | Bethel | £43,944 | 8.46% | £36,043 | 7.33% | £4,926 | 1.03% |
| | | 7 | 2013 | Bodfeurig | £29,613 | 11.90% | £2,684 | 1.11% | £33,972 | 14.62% |
| | | 8 | 2015 | Borthygest | £11,631 | 5.12% | £18,064 | 8.76% | £5,491 | 2.64% |
| | 4 | 9 | 2017 | Brynaerau | £28,001 | 11.59% | £34,598 | 15.19% | £19,322 | 7.90% |
| | | 10 | 2026 | Y Gelli | £26,207 | 3.99% | £54,842 | 8.33% | £46,863 | 7.10% |
| | 5 | 11 | 2028 | Penybryn | £62,561 | 12.07% | £26,721 | 6.02% | £22,171 | 5.37% |
| | | 12 | 2033 | Treferthyr | £21,538 | 5.25% | £18,271 | 4.67% | £38,533 | 10.79% |
| * | 6 | 13 | 2035 | Cwm Y Glo | £20,429 | 12.47% | £35,411 | 18.23% | £35,143 | 16.17% |
| | | 14 | 2036 | Chwilog | £18,232 | 9.37% | £14,174 | 6.98% | £7,420 | 3.46% |
| | | 15 | 2039 | Crud Y Werin | £7,234 | 3.01% | £20,020 | 8.27% | £23,227 | 9.97% |
| | 7 | 16 | 2042 | Dolbadarn | £84,132 | 14.72% | £77,344 | 13.80% | £50,217 | 9.31% |
| | | 17 | 2046 | Edern | £17,946 | 5.87% | £2,800 | 1.01% | £15,369 | 5.57% |
| * | 8 | 18 | 2047 | Felinwnda | £8,433 | 5.30% | £10,713 | 6.63% | £9,944 | 6.14% |
| | 9 | 19 | 2049 | Garndolbenmaen | £12,600 | 5.70% | £16,675 | 8.01% | £14,578 | 6.65% |
| | 10 | 20 | 2051 | Glanadda | £47,293 | 23.03% | £58,878 | 25.18% | £21,921 | 9.57% |
| * | | 21 | 2059 | Llanaelhaearn | £10,548 | 6.22% | £12,661 | 7.24% | £2,825 | 1.61% |
| | | 22 | 2060 | Llanbedrog | £25,824 | 9.06% | £9,844 | 3.95% | £6,235 | 2.55% |
| | 11 | 23 | 2066 | Llangybi | £22,475 | 8.87% | £35,648 | 12.99% | £20,135 | 7.18% |
| | | 24 | 2069 | Llanllechid | -£4,707 | -0.58% | -£20,358 | -2.53% | £44,784 | 5.35% |
| | 12 | 25 | 2070 | Llanllyfni | £75,531 | 22.03% | £61,957 | 17.52% | £62,298 | 17.67% |
| | 13 | 26 | 2075 | Bab Morfa Nefyn | £27,031 | 13.89% | £18,366 | 10.17% | £20,467 | 11.15% |
| * | 14 | 27 | 2081 | Nebo | £27,584 | 16.43% | £25,195 | 15.15% | £14,167 | 8.24% |
| | 15 | 28 | 2085 | Penisarwaen | £17,854 | 8.80% | £16,733 | 8.09% | £25,242 | 11.61% |
| | 16 | 29 | 2089 | Bro Lleu | £33,309 | 5.54% | £29,988 | 5.60% | £35,207 | 6.45% |
| | 17 | 30 | 2103 | Sarn Bach | £29,044 | 13.00% | £25,072 | 10.26% | £22,738 | 10.51% |
| | 18 | 31 | 2104 | Eifion Wyn | £54,013 | 7.62% | £73,856 | 9.44% | £42,122 | 5.51% |
| | 19 | 32 | 2108 | Talysarn | £22,551 | 6.95% | £30,747 | 9.74% | £22,378 | 7.50% |
| | 20 | 33 | 2110 | Y Gorlan | £38,471 | 9.81% | £25,576 | 7.15% | £28,134 | 7.66% |
| | 21 | 34 | 2112 | Tudweiliog | £10,760 | 5.67% | £10,257 | 5.35% | £10,138 | 5.18% |
| | | 35 | 2113 | Waunfawr | £30,305 | 6.74% | £28,530 | 6.43% | £21,252 | 5.00% |
| | 22 | 36 | 2116 | Glancegin | £132,130 | 16.75% | £96,234 | 12.74% | £45,417 | 6.16% |
| * | 23 | 37 | 2118 | Bab Coed Mawr | £46,838 | 23.05% | £41,267 | 19.56% | £36,957 | 15.85% |
| | | 38 | 2122 | Bontnewydd | £19,452 | 3.19% | £29,870 | 5.17% | £35,923 | 6.20% |
| | | 39 | 2123 | Y Garnedd | £42,583 | 4.52% | £67,226 | 7.32% | £58,909 | 6.17% |
| | | 40 | 2125 | Cymerau | £54,085 | 4.79% | £78,813 | 7.21% | £109,069 | 9.81% |
| | 24 | 41 | 2126 | Abercaseg | £45,615 | 12.97% | £96,116 | 27.72% | £79,295 | 21.12% |
| | | 42 | 2180 | Bala | £15,039 | 3.94% | £26,812 | 7.71% | £58,347 | 15.71% |
| * | 25 | 43 | 2183 | Brithdir | £26,112 | 15.86% | £20,743 | 12.16% | £17,058 | 9.99% |
| | 26 | 44 | 2185 | Corris | £37,349 | 17.52% | £34,605 | 16.89% | £35,734 | 17.24% |
| * | 27 | 45 | 2187 | Dinas Mawddwy | £29,961 | 17.01% | £43,241 | 22.83% | £36,963 | 19.17% |
| | 28 | 46 | 2189 | Dyffryn Ardudwy | £50,025 | 18.69% | £40,933 | 18.47% | £22,973 | 11.00% |
| | 29 | 47 | 2190 | Bro Cynfal | £19,085 | 6.64% | £14,717 | 6.10% | £21,652 | 9.57% |
| * | | 48 | 2192 | Edmwnd Prys | £6,819 | 3.56% | £10,425 | 5.88% | £12,002 | 6.61% |
| | 30 | 49 | 2194 | Llanbedr | £12,961 | 5.49% | £15,818 | 6.59% | £13,038 | 5.53% |
| * | | 50 | 2197 | Llanelltyd | £5,528 | 2.78% | £12,107 | 6.67% | £11,764 | 6.31% |
| * | 31 | 51 | 2198 | Y Garreg | £11,919 | 7.69% | £12,294 | 8.23% | £20,996 | 13.99% |
| | | 52 | 2199 | O.M.Edwards | £29,503 | 8.64% | £13,239 | 4.03% | £6,978 | 2.46% |
| | 32 | 53 | 2205 | Manod | £29,836 | 9.26% | £24,364 | 7.11% | £39,594 | 11.75% |
| * | 33 | 54 | 2207 | Pennal | £16,058 | 9.60% | £28,650 | 15.68% | £21,276 | 11.85% |

# Ysgolion gyda balansau dros 5% 2013/14, 2014/15 a 2015/16

| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2016 | Balansau 31/03/2016 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2015 | Balansau 31/03/2015 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2014 | Balansau 31/03/2014 fel % o'r Dyraniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 55 | 2208 | Cefn Coch | £30,869 | 5.09% | £26,634 | 4.43% | £37,786 | 6.24% |
| * | 56 | 2210 | Talsarnau | £11,695 | 6.08% | £14,090 | 7.64% | £6,719 | 3.60% |
| | 57 | 2211 | Tanygrisiau | £4,983 | 1.86% | £16,239 | 5.24% | £1,785 | 0.64% |
| 34 | 58 | 2212 | Penybryn | £87,877 | 11.12% | £62,592 | 8.22% | £73,771 | 9.59% |
| 35 | 59 | 2213 | Bro Hedd Wyn | £43,462 | 14.96% | £24,704 | 8.29% | £20,383 | 7.11% |
| 36 | 60 | 2214 | Frongoch | £35,448 | 17.47% | £18,975 | 10.84% | £33,598 | 20.31% |
| * | 61 | 2215 | Ieuan Gwynedd | £4,905 | 2.82% | £28,321 | 15.47% | £28,863 | 15.59% |
| 37 | 62 | 2219 | Tan y Castell | £18,745 | 6.76% | £36,788 | 13.54% | £29,085 | 10.37% |
| 38 | 63 | 2220 | Ffridd y Llyn | £20,808 | 7.27% | £24,616 | 9.84% | £37,207 | 15.71% |
| 39 | 64 | 2221 | Maenofferen | £83,880 | 10.57% | £79,160 | 9.56% | £40,369 | 5.02% |
| 40 | 65 | 2227 | Hirael | £63,152 | 11.35% | £67,192 | 11.38% | £38,071 | 6.10% |
| | 66 | 3004 | Pont y Gôf | £32,812 | 8.70% | £13,454 | 3.47% | £3,981 | 1.12% |
| 41 | 67 | 3005 | Maesincla | £88,477 | 7.44% | £79,555 | 7.01% | £94,715 | 8.21% |
| | 68 | 3009 | Faenol | £43,603 | 5.92% | £35,503 | 4.89% | £34,180 | 4.90% |
| * | 69 | 3010 | Foelgron | £7,574 | 4.76% | £15,924 | 9.90% | £11,085 | 6.74% |
| 42 | 70 | 3013 | Llandygai | £100,975 | 19.12% | £68,539 | 13.60% | £58,045 | 11.80% |
| 43 | 71 | 3018 | Llandwrog | £20,993 | 9.09% | £21,700 | 8.03% | £15,895 | 6.19% |
| * | 72 | 3023 | Llanystumdwy | £4,412 | 2.92% | £11,338 | 6.86% | £8,934 | 5.47% |
| 44 | 73 | 3029 | Tregarth | £103,375 | 24.49% | £100,897 | 22.70% | £112,291 | 23.63% |
| | 74 | 3030 | Cae Top | £40,931 | 4.86% | £59,607 | 6.89% | £76,776 | 8.89% |
| | 75 | 3041 | Dolgellau | £13,933 | 2.73% | £43,806 | 7.89% | £20,766 | 3.69% |
| 45 | 76 | 3300 | Santes Helen | £47,837 | 18.83% | £52,935 | 18.41% | £40,893 | 13.44% |
| 46 | 77 | 3301 | Our Lady | £20,886 | 5.06% | £23,888 | 6.04% | £20,497 | 5.17% |
| | 78 | 3305 | Beuno Sant | -£2,904 | -1.25% | £6,723 | 3.02% | £40,033 | 16.57% |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 4002 | Dyffryn Ogwen | £63,584 | 3.40% | £69,118 | 3.82% | £144,316 | 7.64% |
| | 2 | 4007 | Dyffryn Nantlle | £136,584 | 5.62% | £100,179 | 4.14% | £59,017 | 2.43% |
| | 3 | 4009 | Eifionydd | £39,441 | 2.22% | £54,791 | 3.01% | £149,907 | 7.73% |
| | 4 | 4030 | Y Gader | £235,705 | 11.02% | £83,514 | 3.95% | -£77,320 | -3.93% |
| 47 | 5 | 4031 | Y Moelwyn | £124,343 | 7.24% | £120,605 | 6.92% | £166,831 | 9.18% |
| 48 | 6 | 4034 | Ardudwy | £76,099 | 5.10% | £77,510 | 5.33% | £154,428 | 9.52% |
| | 7 | 4037 | Tryfan | £29,639 | 1.28% | £51,315 | 2.24% | £120,437 | 5.12% |
| 49 | 8 | 4040 | Glan Y Môr | £250,256 | 10.83% | £227,572 | 9.80% | £196,899 | 8.15% |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 50 | 1 | 3503 | Hafod Lon | £119,505 | 15.21% | £87,213 | 11.35% | £47,910 | 6.27% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM GWERTH BALANSAU DROS 5%** | **£1,506,674** | **66** | **£1,385,322** | **72** | **£1,374,625** | **73** |

* *ysgolion yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio*

Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 29 Tachwedd 2016 |
| **TEITL** | Cyllido Ysgol Ddilynol |
| **PWRPAS** | Cadarnhau methodoleg cyllido Ysgol Ddilynol |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. Cefndir**
O'r 1af Medi 2017 bydd gan Gyngor Gwynedd Ysgol Ddilynol felly mae angen amlinellu a chadarnhau methodoleg cyllido ar gyfer y math hynny o Ysgol.

**1.1** Mae'r gofyn i ddatganoli cyfrifoldeb a chyllid i gyrff llywodraethol ysgolion yn ei le ers 1988 (Rheolaeth Leol Ysgolion), gyda'r 'Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010' y rhai cyfredol.

**1.2** Mae'r rheoliadau yn ymdrin â holl agweddau cyllido ysgolion, gan gynnwys rheoliadau ar gyfer y cyllid gall Adran Addysg ei ddal yn ganolog e.e. cludiant disgyblion i ysgol, a sut mae rhaid i gyllid gael ei ddatganoli i ysgolion, e.e. esiampl dda o hyn yw rheol *'Rhan 3 - Cyfrannau ysgolion o'r gyllideb : Adran 23'* sydd yn sylfaenol yn gofyn i Awdurdod Lleol sicrhau bod fformiwla dyrannu ysgolion cynradd ac uwchradd yn darparu o leiaf 70% o'r cyllid a ddatganolir ar sail nifer disgyblion.

**1.3** Mae gan Gyngor Gwynedd fformiwla cyllido benodol ar gyfer pob un o'r 3 sector ysgol gyfredol sef Cynradd, Uwchradd ac Arbennig (gweler yr atodiadau sy'n cynnwys manylion ac eglurhad fformiwla dyrannu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd)

**2. Methodoleg**
**2.1** Mewnbynnu ystadegau addysg Gynradd ar gyfer pob safle'r Ysgol Ddilynol a'u redeg yn unigol trwy'r Fformiwla Cyllido Ysgolion Cynradd.
**2.2** Mewnbynnu ystadegau addysg Uwchradd ar gyfer pob safle'r Ysgol Ddilynol a'u redeg yn unigol trwy'r Fformiwla Cyllido Ysgolion Uwchradd.
**2.3** Cyfanswm y symiau wedi'i gyfrifo ar gyfer pob safle dan ran 2.1 a 2.2 fydd cyfanswm dyraniad cyllido'r Ysgol Ddilynol.

**3. Egwyddorion**

**3.1 Cyfartaledd Cyflog**

Mae'r fformiwla cyllido Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Uwchradd yn cyfeirio at 'Cyfartaledd Cyflog' oddi fewn y pennawd athrawon, er hynny mae'r cyfrifiad o'r cyfartaledd cyflog yn wahanol, sef -

- Cynradd - cyfrifir cyfartaledd cyflog ar gyfer pob Ysgol Gynradd unigol, yn seiliedig ar wir gost y staff dysgu addysg gynradd yn yr ysgol, gan sicrhau y cynhwysir 1 Pennaeth ar gyfer pob ysgol, ynghyd ag 1 Dirprwy ar gyfer pob ysgol gyda mwy na 75 disgybl.
- Uwchradd - selir cyfartaledd cyflog Ysgol Uwchradd ar gyfanswm wir gost staff dysgu oddi fewn holl Ysgolion Uwchradd (gan gynnwys staff dysgu addysg uwchradd Ysgolion Dilynol), gan sicrhau y cynhwysir 1 Pennaeth a 2 Ddirprwy ar gyfer pob ysgol.

Bydd cyfartaledd cyflog Ysgol Ddilynol yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn -

- Addysg Gynradd
  Safle 1- gwir gost athrawon addysg gynradd gan gynnwys 1 Pennaeth ac 1 Dirprwy (graddfa yn seiliedig ar gyfanswm nifer disgyblion cynradd yr ysgol ddilynol gyfan).
  Safleoedd Eraill – gwir gost athrawon addysg gynradd gan gynnwys 1 Rheolwr Safle.
- Addysg Uwchradd
  Defnyddir cyfartaledd cyflog Ysgolion Uwchradd y Sir.

**3.2 Gwarchodaeth Lleiafswm Nifer Athrawon**

Mae'r dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm nifer athrawon presennol oddi fewn y fformiwla ariannu Cynradd ac Uwchradd yn parhau ar gyfer pob safle unigol oddi fewn Ysgol Ddilynol.

**3.3 Arwynebedd Adeilad a Thir**

Ble darperir addysg gynradd ac addysg uwchradd yn llwyr ar un safle unigol Ysgol Ddilynol, i bwrpas fformiwla ariannu mi fydd Arwynebedd Adeilad, Arwynebedd Glanhau a'r gofyn Cynnal Tir yn seiliedig ar ddosraniad rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd.

# FFORMIWLA CYNRADD 2016/17

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nifer Disgyblion Meithrin Medi 2015 | |
| 2 | Nifer Pwysol Meithrin x 0.44 ( M ) | gwir nifer meithrin x 0.44 i adlewyrchu disgyblion rhan-amser |
| 3 | Nifer Disgyblion Babanod Medi 2015 ( B ) | |
| 4 | Nifer Disgyblion Iau Medi 2015 ( I ) | |
| 5 | **Cyfanswm Nifer Disgyblion Pwysol (M)+(B)+(I) = ( N )** | |
| 6 | **Cyfartaledd Dosbarth ( N / A )** | |
| 7 | Nifer Athrawon | Nifer Athrawon ( 0.4347 + ( N x 0.0388 )) x 0.95497 |
| 8 | Nifer Athrawon lleiafswm staff dysgu | lleiafswm staff dysgu 2 neu 1.5 i ysgolion <15 disgybl llawn amser |
| 9 | **Cyfanswm Nifer Athrawon - cyswllt ( A )** | |
| 10 | Nifer Athrawon 10% CPA a 10% Rheoli | 10% athrawon cyswllt (A) i bwrpas CPA + 10% athrawon cyswllt (A) i bwrpas Rheoli |
| 11 | Cyfartaledd Cyflog Athrawon - cyn gweithredu trosiant 1.5% | cyfartaledd cyflog ysgol cyn trosiant ac heb gynnwys gorbenion |
| 12 | Mesurydd ADY | disgyblion ar gyfnodau ADY : GY, GY+, 3*, Asesu a Datganiad ( pwysiad 1:3:3:3:3 ) |
| 13 | Nifer Hawl Cinio am Ddim | nifer disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio am ddim |
| 14 | Canran Disgyblion Llawn Amser yn Gymwys i Dderbyn Cinio am Ddim | |
| 15 | Arwynebedd Adeilad ($m^2$) | |
| 16 | Arwynebedd Glanhau ($m^2$) | |
| 17 | Pwysau Cyflwr Adeilad | A = 1.0 B = 1.2 C = 1.4 |
| 18 | Perchnogaeth Adeilad | 1 = AALl 0 = dim AALl |
| 19 | Pwysau Glanhau | 0.75 i 1.50 yn adlewyrchu anhawster glanhau |
| 20 | Gofalwr | 1 = gofalwr 0 = dim gofalwr |
| 21 | Pwysau Cynnal Tir | asesiad gofynion oriau blynyddol |
| 22 | Categori Pellter o Canolfan Hamdden | 1 = llai na 1 milltir 2 = llai na 12 milltir 3 = dros 12 milltir |


| | | | |
|---|---|---|---|
| 23 | **Staffio** | Athrawon | nifer athrawon x ( cyfartaledd cyflog x llai trosiant 1.5% x gorbenion 1.2687 + llanw £1,655 ) |
| 24 | | Athrawon - lleiafswn staff dysgu | nifer athrawon lleiafswm staff dysgu x ( cyfartaledd cyflog x llai trosiant 1.5% x gorbenion 1.2687 + llanw £1,655 ) |
| 25 | | Athrawon 10% CPA a 10% Rheoli | fte nifer athrawon 20% x ( M6 £33,022.33 x gorbenion 1.2687 + llanw £1,655 ) |
| 26 | | ADY | i ysgol sydd ddim mewn gwarchodaeth ( mesurydd ADY x £78.59 ) |
| 27 | | Amddifadedd | i ysgol sydd ddim mewn gwarchodaeth ( nifer cinio am ddim x £314.86 ) + i pob ysgol (nifer cinio am ddim x £82.34 ) |
| 28 | | Staff Ategol : Clerigol | lwmp swm £520.00 + ( nifer disgyblion pwysol x £65.45 ) |
| 29 | | Staff Ategol : Goruchwylio | nifer disgyblion llawn amser x £53.12 |
| 30 | | Integreiddio - datganiadau | ar sail cyfartaledd cost darpariaeth oriau athrawon a chymorthyddion |
| 31 | | Integreiddio - eraill | 80% Nifer Disgyblion a 20% Hawl Cinio am Ddim |
| 32 | **Adeiladau** | Adeiladau : Cynnal a Chadw Ysgol | canran hanesyddol o'r fformiwla newydd |
| 33 | | Adeiladau : Cynnal a Chadw Adran Eiddo | lwmp swm £600.00 + ( $m^2$ x £4.64 x pwysau cyflwr ) - llai elfen hanesyddol |
| 34 | | Adeiladau : Eraill | arwynebedd adeilad x £0.83 |
| 35 | | Adeiladau : Gwasanaethau Eiddo | lwmp swm £453.00 + ( $m^2$ x £1.05 x pwysau cyflwr ) |
| 36 | | Ynni | rhaniad cyllideb 2016/17 ar sail cyfartaledd gwariant 3 mlynedd |
| 37 | | Trethi | seiliedig ar werth ardrethol : gwir gost trethi 2016/17 |
| 38 | | Glanhau | [ lwmp swm £1790.00 + ( arwynebedd glanhau x £13.50 ) ] x pwysiad glanhau + ( *i ysgolion heb ofalwr* ) nifer plant pwysol x £47.62 x pwysiad glanhau |
| 39 | | Gofalu | categori gofalu = 1 x ( nifer disgyblion pwysol x £28.80 ) |
| 40 | | Cynnal Tir | asesiad gofynion oriau blynyddol x £46.50 |
| 41 | **Adnoddau** | Adnoddau Dysgu | lwmp swm £790.00 + ( nifer disgyblion pwysol x £51.43 ) + ( nifer hawl cinio am ddim x £17.70 ) |
| 42 | **Eraill** | Pyllau Nofio a Chwaraeon | categori pelleter 1 = £0 neu 2 = £280.00 neu 3 = £840.00 + ( nifer disgyblion llawn amser x £5.90 ) |
| 43 | | Gwasanaeth Cerdd | nifer disgyblion CA2 Iau x £28.70 |
| 44 | | Swyddfa Ardal | lwmp swm £1,160.00 + ( nifer disgyblion llawn amser x £23.47 ) |
| 45 | | Cyngor Ariannol | lwmp swm £328.00 + ( nifer disgyblion llawn amser x £2.12 ) |
| 46 | | Rheoli Banc ayb | lwmp swm £107.00 + ( nifer disgyblion llawn amser x £0.74 ) |
| 47 | | Cyflogau a Personel | lwmp swm £98.00 + ( nifer disgyblion llawn amser x £7.07 ) + lwmp swm £86.00 + ( nifer disgyblion llawn amser x £6.38 ) |
| 48 | | Cefnogaeth Technoleg | lwmp swm £80.00 + ( nifer disgyblion llawn amser x £5.16 ) |
| 49 | | Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion | Canran o wir gost y ddarpariaeth |
| 50 | | Arlwyaeth | lwmp swm £4380.65 + ( nifer cinio am ddim x £437.65 ) + ( nifer disgyblion llawn amser - nifer hawl cinio am ddim x £77.26 ) + ( nifer disgyblion llawn amser - nifer hawl cinio am ddim x -£11.60 ) |
| **51** | **IS GYFANSWM DYRANIAD 2016/17** | | **is gyfanswm dyraniad** |
| 52 | Polisi Diwygiedig Gwarchodaeth Lleiafswm Staff Dysgu | | defnyddio balansau dros 5% i leihau gwarchodaeth lleifaswn staff dysgu |
| **53** | **DYRANIAD 2016/17** | | **cyfanswm dyraniad** |

# EGLURHAD O DDYRANIAD YSGOLION UWCHRADD 2016/17


**FFACTORAU WEDI'I DEFNYDDIO YN Y FFORMIWLA**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | CATEGORI MODEL IAITH | CH = 0.01, A = 0.03, Ci = 0.04, Cii = 0.04, Bi = 0.06, Bii = 0.06 |
| 2 | PWYSIAD MODEL IAITH | |
| 3 | ARWYNEBEDD ADEILAD ($m^2$) | |
| 4 | ARWYNEBEDD GLANHAU ($m^2$) | |
| 5 | PWYSIAD GLANHAU | 5 - 7 yn adlewyrchu anhawster glanhau |
| 6 | PWYSIAD CYNNAL TIR | Asesiad gofynion oriau blynyddol |
| 7 | PWYSIAD YNNI | 8 - 15 yn adlewyrchu effeithlonrwydd tanwydd |
| 8 | PWYSAU CYFLWR ADEILAD | A = 1.00 B = 1.2 C = 1.4 |
| 9 | NIFER DISGYBLION | |
| 10 | NIFER DISGYBL CA3 MEDI 2015 | Blwyddyn 7 + 8 + 9 = a |
| 11 | NIFER DISGYBL CA4 MEDI 2015 | Blwyddyn 10 + 11 = b |
| 12 | CYFANSWM NIFER DISGYBLION | a + b |
| 13 | NIFER PWYSOL DISGYBLION | [ a x 1.316 + b x 1.629 ] + [ ( 900 - a - b ) x 0.14 ] + [ ( a + b ) x model iaith ] |
| 14 | GRWP OEDRAN YSGOL | 1 = ysgol gyda 6ed dosbarth 0 = ysgol heb 6ed dosbarth |
| 15 | MESURYDD AAA | Disgyblion AAA ar gyfnod GY, GY+, 3*, Asesu a Datganiad ( pwysiad 1:3:3:3:3 ) |
| 16 | NIFER CINIO AM DDIM | Nifer disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio am ddim |
| 17 | % DISGYBLION GYDA HAWL CINIO AM DDIM | |

| | | |
|---|---|---|
| 18 | NIFER AMCANOL O ATHRAWON CA3 a CA4 | ( Cyflogau Staff Dysgu + Dyraniad AAA ) / Cyfartaledd Cyflog y Sector **£51,982** |
| 19 | NIFER AMCANOL O ATHRAWON - GWARCHODAETH CA3 a CA4 | Gwarchodaeth / Cyfartaledd Cyflog y Sector **£51,982** |
| 20 | CYFANSWM NIFER AMCANOL O ATHRAWON | Cyfanswm Nifer Amcanol o Athrawon CA3 a CA4 |
| | **CYFRIFIAD Y FFORMIWLA DYRANNU** | |
| 21 | STAFF DYSGU - CYFLOGAU | Nifer Pwysol o Ddisgyblion x **£51,982** ( Cyfartaledd Cyflog ) / **27.83** CDA |
| 22 | STAFF DYSGU - GWARCHODAETH (lleiafswm 18.17 fte athrawon) | Gwarchodaeth i ysgolion gyda llai na 18.17 fte athrawon CA3 a CA4 |
| 23 | STAFF DYSGU - AAA | ( Mesurydd A.A.A. x £148.37 ) + ( Nifer Cinio am Ddim x £534.37 ) |
| 24 | INTEGREIDDIO - DATGANIADAU | Ar sail oriau Datganiadau |
| 25 | INTEGREIDDIO - ERAILL | 80% Nifer Disgyblion 20% Hawl Cinio am Ddim |
| 26 | CYTUNDEB BAICH GWAITH ATHRAWON | Nifer Amcanol o Athrawon x £873 + £7,279 |
| 27 | CYTUNDEB BAICH GWAITH ATHRAWON - Medi 2005 | Nifer Amcanol o Athrawon x £1,289 + £472 + £174 + i ysgol 6ed £803 |
| 28 | RHEOLI PERFFORMIAD ATHRAWON | Nifer Amcanol o Athrawon x £156 |
| 29 | STAFF ATEGOL | Cyngor Ysgol £236 + ( Nifer Disgyblion ( a + b ) x 1.62 x £92.36 ) + £20,167 |
| 30 | UNEDAU ARBENNIG | Lwmp sum |
| 31 | STRATEGAETH CYNHWYSIAD | ((Mesurydd ADY x £74.04) + (Nifer Cinio am Ddim x £266.65)<br>+ (Nifer Disgyblion CA3 x £59.23) +(Nifer Disgyblion CA4 x £82.42)) |
| 32 | YNNI | ( Nifer Disgyblion (a + b) x Pwysau Ynni x £8.47) + £16,170<br>+ £38,050 i ysgol gyda pwll nofio |
| 33 | TRETHI | Seiliedig ar y Gwerth Ardrethol ( h.y. Gwir Gost Trethi 2016/17 ) |
| 34 | ADEILADAU - CYNNAL A CHADW | Elfen hanesyddol |
| 35 | ADEILADAU - CYNNAL A CHADW ers 1/4/2000 | [ ( $m^2$ x £4.18) x pwysau cyflwr ] + £674 llai elfen hanesyddol |
| 36 | ADEILADAU - ERAILL | $m^2$ x £0.56 |
| 37 | ADEILADAU - GWASANAETHAETHAU EIDDO | [ ( $m^2$ x £0.49 ) x pwysau cyflwr ] + £366 |
| 38 | GLANHAU | ( Arwynebedd Glanhau x Pwysau Glanhau x £1.81 ) + £2,521 |
| 39 | CYNNAL TIR | Asesiad gofynion oriau blynyddol x £39.56 |
| 40 | GWASANAETHAU A CHYFLENWADAU | [ ( a + b ) x 3.75 ] x £31.54 + £3,262 + ( Nifer cinio am ddim x £12.90 ) +<br>( Nifer Disgyblion ( a + b ) / 6 x £9.51 ) |
| 41 | NOFIO A CHWARAEON | Nifer Disgyblion ( a + b ) x £5.72 |
| 42 | GWASANAETH CERDD | Nifer Disgyblion ( a + b ) x £23.07 |
| 43 | CYNGOR ARIANNOL | ( Nifer disgyblion ( a + b ) x £0.31 ) + £320 |
| 44 | RHEOLI BANC ayyb | ( Nifer disgyblion ( a + b ) x £0.72 ) + £295 |
| 45 | CYFLOGAU A PERSONEL | ( Nifer disgyblion ( a + b ) x £5.52 ) + £228 +<br>( Nifer disgyblion ( a + b ) x £5.27 ) + £194 |
| 46 | CEFNOGAETH TECHNOLEG | ( Nifer Disgyblion ( a + b ) x £6.73 ) + £2,204 |
| 47 | CEFNOGAETH SYSTEMAU | ( Nifer Disgyblion ( a + b ) x £9.77 ) + £5,692 |
| 48 | DYSGU O BELL | Nifer Disgyblion ( a + b ) x £4.97 |
| 49 | GWASANAETH RHWYDWAITH YSGOLION | Canran o wir gost y ddarpariaeth |
| 50 | GWASANAETH ARLWYAETH | ( Nifer a hawl i dderbyn cinio am ddim x £734.23 ) + £7,182<br>- ( poblogaeth llai hawl cinio am ddim x £10.90 ) |
| 51 | Grant Ynni ac Eraill yn trosglwyddo i'r setliad | ( Nifer Pwysol o Ddisgyblion x £13.38 ) + £3,826 |
| **52** | **DYRANIAD 2016/17** | **cyfanswm dyraniad CA3 a CA4** |




1. Amrediad y cymhareb Disgybl i Athro rhwng 7.94:1 ac 26.27:1
2. Oddi fewn y petryal coch yw'r ysgolion sy'n derbyn dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm staffio




1. Amrediad y cymhareb Disgybl i Athro rhwng 13.65:1 ac 18.12:1
2. Oddi fewn y petryal coch yw'r ysgolion sy'n derbyn dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm staffio